

Cymru

Rhifyn 16 • Gaeaf 2018/19

At Eich Dant

Rhagair

gan Colette Bridgman, Prif Swyddog Deintyddol Cymru

Gydweithwyr, croeso i'r rhifyn diweddaraf. Bydd 2019 yn flwyddyn o bwys i'r byd deintyddol a gwella iechyd y geg yma yng Nghymru. Gobeithio y bydd yr erthyglau a'r pynciau trafod yn helpu i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi a'ch tîm. Cofiwch rannu copi ag aelodau eraill o'ch tîm wedyn.

Ym mis Gorffennaf 2018, fe wnaethom ni gyhoeddi *Cymru Iachach: ymateb y gwasanaethau deintyddol ac iechyd y geg*: gov.wales/docs/phhs/publications/yn-gryno-cymru-iachach.pdf

Mae'n nodi sut byddai gwella iechyd y geg a deintyddiaeth yn cyfrannu at y cyfeiriad polisi cenedlaethol a ddisgrifir yn: *Cymru Iachach: ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol*: gov.wales/topics/health/publications/healthier-wales/?skip=1&lang=cy

Mae cymaint wedi digwydd ers hynny. Rydym yn cydnabod trwy fuddsoddi yn y timau deintyddol sydd gennym – er mwyn annog a chreu amgylcheddau a chyfleoedd i weithio'n well, y gallwn helpu i arloesi a chreu newidiadau. Mae trafodaethau'n cael eu cynnal gyda thimau deintyddol, pwyllgorau a chynrychiolwyr dros Gymru benbaladr. Mae deintyddion,

gweithwyr deintyddol proffesiynol, academyddion a rheolwyr byrddau iechyd yn cyfrannu ac yn llywio newidiadau. Cofiwch gyfrannu a sicrhau lle i'ch tîm yn yr ail symposiwm deintyddol cenedlaethol a gynhelir yn y brifddinas ar 21 Mawrth 2019 – i glywed yr holl fanylion gan bawb sy'n cymryd rhan.

Bydd sicrhau bod cleifion â'r anghenion mwyaf yn gallu cael gafael ar ofal a thriniaeth ddeintyddol reolaidd; mynd ati'n fwy dyfal i sicrhau dull ataliol o ofal ar gyfer pob claf, gwneud defnydd mwy effeithiol o'r adnoddau sydd gennym a defnyddio sgiliau'r holl dîm wrth gyflawni'r gwaith sydd i'w wneud, yn feysydd gwaith ac yn ganolbwynt allweddol wrth weddnewid deintyddiaeth yn ystod 2019.

Ac mae pethau'n gwella. Rydym yn cymryd camau i gyfrannu fwyfwy at ddiwygio contractau ledled Cymru. Fe wnaeth 22 o ddeintyddfeydd ar draws y saith bwrdd iechyd gymryd rhan yng ngham cychwynnol y rhaglen gyfredol. Cafodd hyn ei hybu ymhellach ym mis Hydref 2018, gyda dros 50 deintyddfa yn cymryd rhan erbyn hyn. Bydd yn ehangu ymhellach ym mis Ebrill 2019 i gynnwys 20% o'r holl ddeintyddfeydd â chontractau'r GIG yng Nghymru.



- 3 Gwella mynediad deintyddol i blant
- 4 Brechiad blynyddol rhag y ffliw
- 5 Croeso i Addysg a Gwella Iechyd Cymru
- 5 Tîm ymgysylltu y Cynllun Gwên a Phractisau Deintyddol Cyffredinol
- 6 Prosesu hawliadau gwaith deintyddol yn eletronig yng Nghymru
- 6 System hysbysu Yellow Card
- 7 Archwiliad cenedlaethol newydd a gwell o ragnodi gwrthficrobaidd
- 8 Canllawiau SDCEP ar broffylacsis endocarditis
- 8 Clustnodi cyllid ar gyfer gwella ansawdd
- 9 Cynllun Cyflawni Cymru ar Reoli Tybaco 2017 – 2020
- 10 FDS/BAPRAS – Datganiad ar y cyd ar dyllu'r geg a thyllu'r tafod
- 10 Mwy o newyddion



Ymhlith y newidiadau allweddol sydd wedi deillio o'r rhaglen ddiwygio hyd yn hyn mae: gwerth Unedau Gweithgarwch Deintyddol (UDA) isel yn cael eu tynnu o'r system a 'thargedau' UDA yn cael eu lleihau a'u disodli gan fesuriadau a disgwyliadau mwy ystyrllon. Mae'r newidiadau yn caniatáu i ddeintyddfeydd asesu cleifion yn drwyadl unwaith y flwyddyn trwy ddefnyddio'r adnodd ACORN. Mae'r wybodaeth yn cael ei chasglu ac erbyn hyn mae'n cael ei hadrodd ar FP17W. Fe'i defnyddir i ddeall cymhlethdod ac anghenion y boblogaeth gleifion sy'n mynychu'r ddeintyddfa ac i bersonoli'r cyngor ar iechyd y geg a'r drefn galw nôl am apwyntiadau pellach gyda chleifion unigol. Mae'r 'disgwyliadau' a'r adnoddau sydd ar gael yn uniongyrchol i'r cleifion yn amlinellu beth y disgwylir i gleifion ei wneud drostynt hwy eu hunain i gynnal a gwella iechyd y geg a pha ymyriadau ar sail tystiolaeth a chyngor deintyddol y bydd timau deintyddol yn eu rhannu.

Mae llawer o waith sylfaenol yn cael ei wneud hefyd. Rydym yn sefydlu a dosbarthu cronfa arloesi er mwyn helpu deintyddfeydd i gynyddu'r defnydd o'r gymysgedd sgiliau fel y gallant gyflawni eu contract cyfredol yn effeithiol ac effeithlon (daeth 73 o geisiadau i law gyda thros hanner yn llwyddiannus. Bydd ail alwad am geisiadau hefyd). Hefyd, rydym am sefydlu cyfadran i weithwyr deintyddol proffesiynol er mwyn gwella ansawdd a chwmpas eu cyfleoedd hyfforddiant a gyrfa; ac yn rhoi ar waith System Reoli e-Atgyfeirio Deintyddol (eRMS) ar gyfer pob atgyfeiriad i wasanaethau deintyddol arbenigol y GIG yng Nghymru.

Bydd eRMS yn mynd yn fyw yn y ddau fwrdd iechyd cyntaf i fabwysiadu'r system yn gynnar (Hywel Dda ac Abertawe Bro Morgannwg) ar 4 Mawrth 2019, cyn ei chyflwyno i'r holl fyrddau iechyd erbyn mis Mehefin 2019. Bydd yr holl wybodaeth sydd ei hangen er mwyn cyrchu gwefan eRMS, ar gyfer adnoddau hyfforddiant a chanllawiau ar sut i ddefnyddio'r system, yn cael eu darparu i dimau deintyddol y ddau fwrdd iechyd cyntaf y mis hwn.

Yn olaf, diolch o galon i bawb a gyfrannodd at wella mynediad i ddeintyddiaeth y GIG i blant. Mae erthygl gynta'r rhifyn hwn yn dangos yr effaith gadarnhaol rydych chi'n ei chael. Rydym yn gweld mynediad gwell i blant ar lefel y boblogaeth. Allai hyn ddim fod wedi digwydd heb gydymdrech a chydweithrediad deintyddfeydd. Mae mwy o blant (niferoedd a chyfran y boblogaeth o blant) nag sydd erioed wedi cofrestru yn y ddau ddegawd diwethaf yn cyrchu ac yn derbyn gofal gan ddeintyddion teuluol yng Nghymru. Dyma effaith sylweddol y newidiadau sy'n digwydd, ac er mai ffrwyth ymdrechion a gwaith caled gan nifer ydyw, mae'n dangos ymateb penodol deintyddfeydd sy'n darparu contractau'r GIG.

Er ein bod ni'n dathlu'r gwelliant hwn o ran plant, rwy'n ymwybodol o'r heriau o hyd ymhlith grwpiau oedolion. Rwy'n arbennig o bryderus am rai yn eu harddegau hwyr ac oedolion ifanc. Fodd bynnag, mae gweld canlyniadau fel hyn yn ein gwneud ni'n fwy penderfynol nag erioed o barhau i weithio gyda thimau deintyddol sy'n darparu deintyddiaeth y GIG yng Nghymru, er mwyn annog mwy ohonynt i gymryd rhan yn y dasg o drawsnewid a llywio eu dyfodol.

Mae angen inni ddeall ac ymateb i beth arall sydd angen ei newid fel bod deintyddfeydd yn croesawu ac yn trin cleifion newydd sy'n oedolion, boed yn gleifion rheolaidd neu'n rhai â mwy o anghenion. Hefyd, mae angen helpu rhagor o oedolion yng Nghymru i fabwysiadu arferion ymddygiad a hunanofal a fydd yn diogelu iechyd y geg ac yn sicrhau bod oedolion sy'n gleifion ar hyn o bryd yn gwneud defnydd priodol o gapasiti presennol y gwasanaeth deintyddol.

Mae 1 o bob 8 o'r holl ddeintyddfeydd â chontractau'r GIG yng Nghymru yn cymryd rhan erbyn hyn. Erbyn mis Ebrill 2019, ein gobaith yw y bydd o leiaf 1 o bob 5 yn rhan o'r rhaglen newid, ac yn cael cymorth i gyflwyno gofal iechyd deintyddol darbodus.

Mae pethau'n newid yn gyflym, ac fel y dywedais ar ddechrau'r rhagair hwn, mae 2019 yn argoeli i fod yn flwyddyn o bwys i ddeintyddiaeth yma yng Nghymru – da chi, byddwch yn rhan o hynny.

Gwella mynediad deintyddol i blant

Diolch i bawb am gymryd rhan (yn enwedig timau deintyddfeydd yn ogystal â thimau Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol (CDS) a'r Cynllun Gwên, byrddau iechyd, Addysg a Gwella Iechyd Cymru a phartneriaid academiaidd ac ati). Rydym yn gweld **effaith eich cydymdrechion** i wella mynediad ar lefel y boblogaeth ar gyfer plant. Rydym wedi rhannu'r gwelliant cyson o ran iechyd y geg plant fel y cyhoeddwyd yn flaenorol mewn arolygon epidemiolegol ac adroddiadau y Cynllun Gwên.


Mae'r ffigurau mynediad diweddaraf o ganlyniad i **ddarparu contract y GIG rhwng 1 Ebrill 2018 a 30 Mehefin 2018** yn dangos gwelliant graddol a pharhaus yng ngofal deintyddol y GIG sydd ar gael i blant. Mae Siart 1 isod yn dangos bod newid yn digwydd ar ôl sawl degawd o ddiffyg datblygiad cyson o safbwynt mynediad i blant. Cafodd 421,488 o blant (dan 18 oed) eu cofnodi fel rhai a fynychodd ofal deintyddol y GIG mewn cyfnod o 24 mis a ddaeth i ben ar 30 Mehefin 2018, sy'n gyfystyr â 67.1 y cant o'r boblogaeth plant (dan 18 oed). **Dyma'r ffigurau uchaf**

erioed o ran mynediad plant i wasanaeth deintyddiaeth y GIG yng Nghymru.

Yn ogystal â phlant yn cael gwasanaeth gan eu deintydd teuluol, fe wnaeth 43,007 o blant (dan 16 oed) yn yr un cyfnod dderbyn gofal yn y CDS. Mae'n bosib bod rhai plant wedi'u gweld gan ddeintydd teuluol a'r CDS hefyd fel trefniant gofal ar rennir, ac wedi'u cyfrif yn y ddwy set o ystadegau, er nad yw'r niferoedd yn debyg o fod yn fawr iawn. Bydd y gwasanaeth deintyddol cymunedol yn adrodd am weithgarwch clinigol ar ffurflen FP17W cyn hir, felly byddwn yn gwybod gwir gyfanswm mynediad yn y dyfodol. Yn anad dim, bydd hyn yn ein helpu i dargedu plant nad ydynt yn mynd at y deintydd ac felly'n colli'r cyfle i gael cyngor ataliol a gwasanaeth ymyrryd.

Pan fydd plant mewn cysylltiad â'r gwasanaethau clinigol deintyddol, dylid gallu manteisio i'r eithaf ar roi cyngor ataliol sydd ar sail tystiolaeth. Bydd hyn yn cyfrannu at welliant parhaus a hirdymor yn iechyd y geg.

Siart 1: Canran y boblogaeth a gafodd ei thrin yn y cyfnod o 24 mis fesul chwarter a grŵp oedran



Brechiad blynyddol rhag y fflw

Mae'r fflw yn glefyd heintus sy'n lledaenu'n hawdd ac yn achosi miloedd o farwolaethau bob blwyddyn yn y DU. Y gaeaf diwethaf oedd un o'r tymhorau mwyaf difrifol o ran y fflw yng Nghymru ers blynyddoedd lawer, ac fe effeithiodd ar bobl o bob oed. Cafwyd 88 achos o'r fflw mewn ysbytai a chartrefi gofal.



Gwelwyd achosion o'r fflw yng Nghymru eto ddechrau Ionawr eleni, ac mae'n debygol o gylchredeg am oddeutu 14 wythnos. Yn ddelfrydol, rhoddir brechiad i bobl cyn i'r fflw ddechrau lledaenu, ond dyw hi ddim yn rhy hwyr i amddiffyn eich hun trwy gael brechiad y gaeaf hwn. Mae'r canlyniadau cynnar yn dangos bod y brechlyn yn cyfateb yn dda i'r straeniau sydd ar led.

Dylai pobl sydd mewn mwy o berygl o gael eu heintio a dioddef cymhlethdodau'r fflw gael brechiad blynyddol, yn ogystal â'r rhai sy'n gofalu amdanyn nhw. Mae hyn yn cynnwys staff rheng flaen deintyddol.

Mae'r fflw yn lledaenu trwy ddefnyddau, mewn erosolau neu trwy gysylltiad uniongyrchol â secretiad anadlol rhywun sydd wedi'i heintio. Pan fo'r fflw yn yr aer, mae mwy o berygl o drosglwyddo'r haint mewn practisau deintyddol oherwydd y chwistrelli erosol a achosir gan ddriliau a digenwyr uwchsain. Mae rhai pobl sydd â'r haint yn gallu bod yn asymptomatig ond yn heintus o hyd.

Mae cyfrifoldeb ar aelodau o dimau deintyddol i ddiogelu eu hunain rhag dal a lledaenu'r fflw i'w cleifion. Y ffordd orau o leihau'r posibilrwydd o ddal y fflw yw trwy gael brechiad bob blwyddyn. Dyma'r ffordd orau o'ch diogelu rhag lledaenu'r fflw hefyd.

Gall aelodau o dimau deintyddol leihau'r perygl o lledaenu'r fflw trwy:

- Gael y brechiad eu hunain, yn enwedig os ydyn nhw'n gweithio'n uniongyrchol gyda chleientiaid
- Cadw draw o'r gwaith os ydyn nhw'n amau bod ganddyn nhw'r fflw
- Mabwysiadu arferion hylendid da er mwyn lleihau'r perygl o'r fflw yn llechu ar arwynebau caled
- Annog unigolion cymwys i gael brechiad rhag y fflw.

Mae rhagor o fanylion am y fflw a'r brechlyn yn www.beatflu.org. Mae gan lechyd Cyhoeddus Cymru bosteri a thafleuni am ddim er mwyn helpu i godi ymwybyddiaeth hefyd: www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/tudalen/95947

Fel gweithiwr iechyd rheng flaen, mae'n bwysig ichi gael brechiad rhag y fflw. Cysylltwch â'ch cyflogwr os nad ydych chi wedi cael eich brechiad y gaeaf hwn eto.

Amddiffynwch eich hun
ac eraill rhag fflw –
ewch am y brechiad
curwchfflw.org #curwchfflw

Protect yourself and
others against flu –
get vaccinated
beatflu.org #beatflu

Croeso i Addysg a Gwella Iechyd Cymru

Mae Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC), a sefydlwyd ar 1 Hydref 2018, yn dwyn ynghyd dri sefydliad allweddol ar gyfer iechyd: Deoniaeth Cymru; Gwasanaethau Addysg Gweithlu a Datblygu (GAGD) GIG Cymru; a Chanolfan Cymru Addysg Fferylliaeth Broffesiynol (WCPPE). Dyma'r unig Awdurdod Iechyd Arbennig yn GIG Cymru.

Mae AaGIC yn cynnwys tîm ôl-raddedig a'r hyn a arferai gael ei adnabod fel y Ddeoniaeth Ddeintyddol o Brifysgol Caerdydd – sydd bellach yn cael ei adnabod fel Adran

Ddeintyddol AaGIC. Dan arweiniad yr Athro David Thomas, bydd yr Adran Ddeintyddol yn parhau i gefnogi timau deintyddol ledled Cymru gydag amrywiaeth eang o adnoddau hyfforddiant, addysg a gwella ansawdd.

Mae rhagor o fanylion ar gael yn:

<https://aagic.gig.cymru/>

I dderbyn gwybodaeth am gyrsiau, cofiwch gofrestru gyda system MaxCourse:

www.maxcourse.co.uk/walesdent/guestHome.asp

Tîm ymgysylltu y Cynllun Gwên a Phractisau Deintyddol Cyffredinol



Mae AaGIC newydd lansio adnodd e-ddysgu newydd. Mae y *Cynllun Gwên ar Waith* ar gael i holl aelodau'r tîm deintyddol ac wedi'i ddatblygu gydag adborth gan ddeintyddion sylfaen yng Nghymru a fu'n ei brofi a'i ddefnyddio.

Mae'r cwrs yn llywio gweithwyr deintyddol proffesiynol trwy brosiect gwella ansawdd ar-lein i gynnwys gofal a chyngor ataliol seiliedig ar dystiolaeth i blant 0-6 oed yn eu deintyddfeydd. Mae'r sail dystiolaeth yn cyd-fynd â'r Cynllun Gwên ac yn ategu cyfraniad gwerthfawr holl aelodau'r tîm

deintyddol at atal pydredd dannedd ymysg plant. Gallwch ddarllen mwy amdano yn y ddolen ganlynol yn ogystal â mynegi diddordeb mewn defnyddio'r adnodd:

dental.walesdeanery.org/quality-improvement/Designed-to-Smile-practice

Mae'r fersiwn ddiweddaraf o wefan Cynllun Gwên yn cynnwys gwybodaeth am leoliadau (ysgolion a meithrinffeydd) sy'n cymryd rhan yn y rhaglen – mae deintyddfeydd a'u timau wedi gofyn am yr wybodaeth hon, a gobeithio y bydd o fudd:

www.designedtosmile.org/

Prosesu hawliadau gwaith deintyddol yn electronig yng Nghymru

Ym mis Hydref 2017, cafodd newid i'r rheoliadau ei gyflwyno gerbron y Cynulliad Cenedlaethol er mwyn helpu i gyflwyno hawliadau electronig.

O 1 Mai 2019 ymlaen, bydd cyrsiau triniaeth ddeintyddol newydd ond yn cael eu derbyn **yn electronig**. Bydd y ffurflenni papur cyfredol FP17W ac FP17OW yn cael eu dileu, yn ogystal â'r fersiynau Cymraeg (FP17Ww ac FP17OWw).

Er mwyn paratoi ar gyfer hyn, mae Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG (NHSBSA) wedi datblygu FP17W ac FP17OW ar-lein y gallir eu creu gan y Cyflwynydd neu Reolwr y Ddeintyddfa ar system Compass yn lle defnyddio'r ffurflenni papur.

Mae sgriniau Compass ar gyfer FP17W ac FP17OW ar-lein yn ail-greu adrannau o'r ffurflenni papur ac yn adeiladu ar y sgriniau

cyfredol sy'n cael eu defnyddio i gywiro gwallau ar ffurflenni papur. Bydd angen i gleifion lofnodi FP17PRW (datganiad) yn union yr un fath â chyflwyno trwy EDI.

Mae'r NHSBSA wrthi'n treialu fersiynau FP17W ac FP17OW Ar-lein gyda nifer o ddeintyddfeydd papur ar hyn o bryd cyn ei gyflwyno'n ehangach.

Os hoffech ragor o wybodaeth, neu ddod yn ddeintyddfa brawf, e-bostiwch [nhsbsa.liaison dental@nhs.net](mailto:liaison dental@nhs.net) am fwy o fanylion.

DS – ni fydd hyn yn cael unrhyw effaith ar y Systemau Rheoli Deintyddfa sydd ar gael ar hyn o bryd.

Er gwybodaeth, mae'r rheoliadau perthnasol ar gael yn: www.legislation.gov.uk/wsi/2017/1040/pdfs/wsi_20171040_mi.pdf

System hysbysu Yellow Card

Yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA) sy'n gyfrifol am reoli'r system hon sydd ar waith ers sawl blwyddyn bellach. Cafodd ei diwygio'n ddiweddar er mwyn caniatáu i gleifion roi gwybod am sgileffeithiau meddyginiaethau a roddwyd iddynt ar bresgripsiwn.

Yn y gorffennol, mae adroddiadau timau deintyddol wedi helpu i nodi effeithiau niweidiol meddyginiaeth ar bresgripsiwn. Un enghraifft yw Nicorandil (meddyginiaeth drwy'r geg ar gyfer trin angina) sy'n gallu achosi briwiau neu wlserau poenus ar ymyl y

tafod.

Mae data diweddar yn dangos mai anaml iawn mae timau deintyddol yn hysbysu neu'n rhoi gwybod am achosion fel hyn o gymharu â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill. Mae'n debygol bod y proffesiwn deintyddol yn gweld sgileffeithiau meddyginiaeth ar y geg yn amlach o lawer nag mae'r data'n ei awgrymu. Gallwch roi gwybod am unrhyw feddyginiaeth ar bresgripsiwn – nid dim ond y rhai a roddwyd ar bresgripsiwn gennych chi.

Mae rhagor o wybodaeth am y cynllun yma: yellowcard.mhra.gov.uk/

Archwiliad cenedlaethol newydd a gwell o ragnodi gwrthficrobaidd


Mae AaGIC wedi cyhoeddi'r archwiliad diwygiedig llawn ar ragnodi gwrthficrobaidd ar gyfer deintyddion yng Nghymru, sy'n seiliedig ar brofiad ac adborth helaeth gan ddeintyddion a ddefnyddiodd yr archwiliad gwreiddiol. Dylai deintyddion archwilio eu harferion rhagnodi gwrthficrobaidd er mwyn helpu i leihau'r risg gwirioneddol o ymwrthedd gwrthfotigau. Mae deintyddion sy'n llwyddo i gwblhau'r archwiliad hyd at lefel dderbyniol yn gymwys am DPP gwiriadwy a gall rhai â contract y GIG hawlio cyllid hefyd. Gallwch ddarllen rhagor am yr archwiliad a chofrestru i gymryd rhan yn:

dental.walesdeanery.org/quality-improvement/national-audit-projects/antimicrobial-prescribing

Hyd yn oed os ddefnyddioch chi'r archwiliad gwreiddiol, efallai y byddai'n ddefnyddiol i chi ddefnyddio'r fersiwn gwbl ddiwygiedig hon.

Mae deintyddion Cymru wedi lleihau'r arfer o ragnodi gwrthfotigau. Mae data a ddarparwyd gan Anup Karki, Ymgynghorydd Iechyd Deintyddol Cyhoeddus (Iechyd Cyhoeddus Cymru) yn dangos bod y niferoedd wedi gostwng 22% rhwng 2009 a 2015. Mae sawl rheswm am hyn – gan gynnwys defnyddio'r archwiliad. Mae hyn yn newyddion da iawn ac rydym yn gobeithio y bydd yr archwiliad diwygiedig yn helpu clinigwyr i barhau â'r tueddiad hwn.

Siart 2: Rhoi Presgripsiwn am Wrthfotigau mewn Gofal Deintyddol Sylfaenol



Canllawiau SDCEP ar broffylacsis endocarditis

Yn sgil cyhoeddi canllawiau NICE ar broffylacsis endocarditis, mae Rhaglen Effeithiolrwydd Clinigol Deintyddol yr Alban (SDCEP) wedi cyhoeddi cyngor i dimau deintyddol er mwyn helpu i weithredu'r canllawiau:

www.sdcep.org.uk/published-guidance/antibiotic-prophylaxis/

Yn 2016, fe wnaeth NICE argymhell na ddylid rhoi triniaeth broffylactig wrthfotig **fel rheol** i bobl sy'n cael triniaeth ddeintyddol. Y bwriad oedd mai dim ond ychydig o unigolion mewn perygl fyddai angen cymorth proffylacsis ar gyfer triniaethau deintyddol. Roedd y proffesiwn deintyddol yn wynebu her o sut i nodi ac adnabod

yr unigolion hynny. Cafodd cyngor SDCEP ei ddatblygu er mwyn helpu i weithredu canllawiau NICE yn ymarferol. Mae'r cyngor yn darparu arweiniad clir gan gynnwys siart llif cryno ar sut i nodi'r unigolion hynny sydd angen ystyriaeth arbennig a phryd i gael cyngor posib gan gardiolegydd neu lawfeddyg y galon. Mae adnoddau eraill ar wefan SDCEP uchod yn cynnwys crynodeb defnyddiol o'r pwyntiau i'w trafod wrth siarad â chleifion, taflen i unigolion sydd mewn perygl cynyddol o gael endocarditis heintus a llythyr enghreifftiol er mwyn cysylltu â thimau'r galon.

Clustnodi cyllid ar gyfer gwella ansawdd

Mae AaGIC yn cefnogi timau deintyddol yng Nghymru gyda phob math o adnoddau archwilio a gwella ansawdd. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn:

dental.walesdeanery.org/quality-improvement-2

Tan nawr, roedd deintyddion â chontract y GIG yn gallu gwneud cais am arian i gefnogi Archwiliadau Clinigol ac Adolygiadau gan Gymheiriaid. Cafodd y cyllid CAPRO hwn ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru, ei weinyddu gan AaGIC a'i dalu i ddeintyddion trwy Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Cylchlythyr Iechyd Cymru (2018) 044 sy'n disgrifio'r system ddiwygiedig ar y defnydd effeithiol o gyllid cyfredol Llywodraeth Cymru

er mwyn helpu i gynnal archwiliadau clinigol, adolygiadau gan gymheiriaid a gwella ansawdd mewn deintyddfeydd. Mae gwella ansawdd yn cynnwys defnyddio adnoddau a dulliau gwella cenedlaethol wedi'u datblygu a'u hyrwyddo gan Wasanaeth Gwella 1000 o Fywydau. Cyn hyn, dim ond deintyddion â chontract y GIG oedd yn gallu cael yr arian hwn er mwyn helpu i gynnal archwiliadau ac adolygiadau gan gymheiriaid. Erbyn hyn, fodd bynnag, bydd yr arian ar gael i gefnogi pob aelod o'r tîm deintyddol clinigol ac er mwyn cefnogi defnydd o'r holl fethodolegau gwella ansawdd cydnabyddedig. Adran Ddeintyddol Addysg a Gwella Iechyd Cymru fydd yn gweinyddu'r arian hwn. Gallwch weld y Cylchlythyr yn:

<https://gov.wales/docs/dhss/publications/whc2018-044cy.pdf>

Cynllun Cyflawni Cymru ar Reoli Tybaco 2017 – 2020

Mae'r Cynllun Cyflawni ar Reoli Tybaco yn cynnwys dau gam gweithredu ar gyfer timau deintyddol yng Nghymru:

- Cynnydd blynyddol mewn cyfraddau atgyfeirio at wasanaethau rhoi'r gorau i smygu yng Nghymru gan ddeintyddfeydd.
- Deintyddfeydd i gynnwys o leiaf un aelod o'r tîm clinigol a all gynnig ymyrraeth fer o ran rhoi'r gorau i smygu ac atgyfeirio at wasanaethau rhoi'r gorau i smygu.

<https://beta.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2017-11/cynllun-cyflawni-cymru-ar-reoli-tybaco-2017-i-2020.pdf>

Hyd yma, mae timau deintyddol wedi cymryd rhan trwy gael hyfforddiant ar ymyriadau byr gan AaGIC; archwiliad wedi'i ariannu; gwybodaeth am wasanaethau Helpa fi i Stopio; a chwestiynau gan lechyd Cyhoeddus Cymru am System Hunanasesu Sicrwydd Ansawdd lechyd Cyhoeddus Cymru.

Mae'n hawdd atgyfeirio i wasanaethau Helpa fi i Stopio. Os yw claf yn ymroi i roi'r gorau iddi ac yn fodlon trosglwyddo ei fanylion cyswllt i'r gwasanaeth, yna gall staff deintyddol wneud hynny'n electronig trwy:

<https://www.helpafiistopio.cymru/ffurflen-cyfeiriad-proffesiynol/>

Mae cymorth rhoi'r gorau i smygu hefyd ar gael mewn rhai fferyllfeydd cymunedol neu gall cleifion deintyddol holi'r meddyg teulu am gyngor.

Mae gwybodaeth gyffredinol am fferyllfeydd cymunedol ar gael ar wefannau'r byrddau iechyd. Mae byrddau iechyd Caerdydd a'r Fro, Cwm Taf a Hywel Dda yn darparu cyngor penodol am fferyllfeydd sy'n cynnig gwasanaethau rhoi'r gorau i smygu:

Caerdydd a'r Fro:

www.cardiffandvaleuhb.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/1143/PHARMACIES%20PROVIDING%20SMOKING%20CESSATION%20SERVICE.pdf

Cwm Taf:

cwmtaf.wales/services/pharmacy-medicines-management/

Hywel Dda:

www.wales.nhs.uk/sitesplus/862/page/77333

FDS/BAPRAS – Datganiad ar y cyd ar dyllu'r geg a thyllu'r tafod

Cyflwynwyd cyfyngiadau oedran ar roi twll mewn rhan bersonol o'r corff yn sgil Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 – mae'n anghyfreithlon tyllu tafod unrhyw un dan 18 oed yng Nghymru, ac mae holl dimau deintyddol Cymru wedi cael gwybodaeth am beryglon hynny:

www.1000livesplus.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/1011/Oral%20Piercing%20Leaflet%20%28Dentists%29%20WELSH.pdf

Mae awdurdodau lleol yn gweithio gyda chwmnïau tyllu a'u cwsmeriaid er mwyn gorfodi'r gyfraith a sicrhau bod pobl ifanc yn gwybod am beryglon tyllu'r tafod.

Yn fwy diweddar, mae'r Gyfadran Llawfeddygaeth Ddeintyddol a Chymdeithas Llawfeddygon Plastig, Adluniol ac Esthetig Prydain wedi cyhoeddi datganiad ar y cyd ar dyllu'r geg a thyllu'r tafod a'r peryglon difrifol sy'n gysylltiedig â'r arferion hyn:

www.rcseng.ac.uk/dental-faculties/fds/faculty/news/archive/statement-on-oral-piercing-and-tongue-splitting/

Er i Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 gychwyn ym mis Gorffennaf 2017, mae Llywodraeth Cymru yn gweithio i gyflwyno darpariaethau llawn y Ddeddf fesul cam a bydd yn gwahodd cydweithwyr deintyddol i gyfrannu pan fyddant yn ystyried materion sy'n ymwneud ag addasiadau i'r corff.

Mwy o newyddion

Gair o brofiad... Nid dim ond cleifion sydd angen cymorth meddygol brys. Diolch i'r tîm deintyddol am rannu'r profiad hwn – mae hi bob amser yn ddefnyddiol dysgu o brofiadau eraill. Efallai yr hoffai tîm eich deintyddfa drafod y sefyllfa ganlynol:

“Roedden ni wrthi'n trin plentyn bach, a gofynnodd ei fam (Mrs A) am gael aros yn yr un ystafell wrth i ni lenwi ei ddant. Roedd yn fachgen da iawn, ond sylwodd y nyrs deintyddol fod y fam ar binnau braidd ac yn coch, a gofynnodd a oedd rhywbeth yn bod. Dywedodd Mrs A fod ganddi ddolur gwddw ofnadwy, a bod ei meddyg wedi rhoi gwrthfotigau iddi. Roedd wedi cymryd y ddos gyntaf awr

yn ôl. Stopiodd y tîm deintyddol eu gwaith er mwyn bwrw golwg ar Mrs A, a sylwi bod ganddi frech yn datblygu ar ei hwyneb a'i dwylo, a bod ei wyneb wedi chwyddo fymryn. Roedd hi'n amlwg yn bryderus ac yn dangos arwyddion o alergedd difrifol. Galwodd y tîm am gymorth ar unwaith yn ogystal â helpu Mrs A – a rhoddwyd adrenalin iddi. Cyrhaeddodd y parafeddygon, a chludo Mrs A i'r ysbyty wrth i aelodau eraill o'r tîm ofalu am ei mab. Cyn hir, roedd y fam wedi gwella'n llwyr, ond roedd y parafeddygon yn bendant o'r farn y gallai'r canlyniad fod yn wahanol iawn pe bai Mrs A heb gael triniaeth mor brydlon”.

Rhifyn nesaf

Bydd y rhifyn nesaf yn ymddangos yn ystod Haf 2019, a bydd yn cynnwys gwybodaeth am bob math o bynciau o ddiddordeb i dimau deintyddol o Fôn i Fynwy gobeithio. Mae croesi i chi gyfrannu 'Gair o brofiad ...' a gallwn eu cynnwys yn ddiennw os dymunwch. E-bostiwrch simon.parker@llyw.cymru